

Prawf Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Hyfforddiant Diogelu

Rhaid i ymgeiswyr am drwydded gyrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat basio'r prawf priodol cyn y gellir caniatáu cais.

Prawf cerbyd hacni (hyd at 1 awr).

Bydd y prawf yn cael ei gynnal o dan amodau arholiad,
(ni chaniateir deunydd i gyfeirio ato na dyfeisiau symudol yn ystod y prawf).

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddeall gweithrediad Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ac ateb:

- 10 cwestiwn ar Reolau Ffordd Fawr y DU a deddfwriaeth berthnasol.
- 5 cwestiwn ar arian a phrisiau
- 10 cwestiwn ar Is-ddeddfau Cerbydau Hacni a manyleb cerbydau.
- 5 cwestiwn yn ymwneud â daearyddiaeth y parth y gwnaed cais amdano.
- 6 cwestiwn ar ddiogelu

Nid oes terfyn o ran y nifer o gynigion y gall ymgeisydd eu gwneud. Codir £54.00 am gost y prawf cychwynnol ac unrhyw ailbrofion.

Prawf Cerbyd Hurio Preifat (hyd at 45 munud)

Bydd y prawf yn cael ei gynnal o dan amodau arholiad,
(ni chaniateir deunydd i gyfeirio ato na dyfeisiau symudol yn ystod y prawf).

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddeall gweithrediad Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ac ateb:

- 10 cwestiwn ar Reolau Ffordd Fawr y DU a deddfwriaeth berthnasol.
- 5 cwestiwn ar arian a phrisiau
- 10 cwestiwn ar amodau'r gyrrwr cerbyd hurio preifat ac amodau'r cerbyd.
- 6 cwestiwn ar ddiogelu

Nid oes terfyn o ran y nifer o gynigion y gall ymgeisydd eu gwneud. Codir £46.00 am gost y prawf cychwynnol ac unrhyw brawf dilynol.

Mae profion engreiffiol ar gael yn:

www.conwy.gov.uk/trwyddedu

Gellir archebu profion Hacni a Hurio Preifat ar-lein drwy ddefnyddio'r ddolen hon - [Profion ac Ailbrofion Gwybodaeth am Dacsi - Fy Nghonwy](#)

Hyfforddiant ymwybyddiaeth Diogelu a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (30 munud).

Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer gweithredwr cerbyd hurio preifat, gyrrwr, gyrrwr cerbyd hacni neu berchennog fynychu'r hyfforddiant Diogelu ac ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant cyn y gellir caniatáu cais.

Bydd Hyfforddiant Diogelu ac Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn digwydd cyn profion Gyrwyr, rhaid i bobl nad oes angen prawf arnynt adael ar ddiwedd y cyflwyniad. Bydd ardystiad yn cael ei anfon ymlaen.